



Bwrdd Tanau Gwylt Cymru

Wales Wildfire Board



Cymru/Wales
CrimeStoppers.
0800 555111



Bannau
Brycheiniog



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service



Swansea University
Prifysgol Abertawe



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Pori
Natur a
Threftadaeth





#LlosgilAmddiffyn: Cynllun Cyfathrebu Amlasiantaethol Cymru Gyfan Bwrdd Tanau Gwylt Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ein Partneriaid	4
Ymgyrch Llosgi i Amddiffyn	5
Ein Dull o Gyfathrebu	6
Ein Hymrwymiadau	6
Ein Hamcanion	7
Ein Cynulleidfaoedd	9
Ein Cynllun	11
Ein Negeseuon Allweddol	13
Ein Deunyddiau	14
Yn dilyn haf na fydd Cymru'n ei anghofio, anogir tirfeddianwyr i Losgi i Amddiffyn	14
Negeseuon cyfryngau cymdeithasol #LlosgilAmddiffyn	17
Cynyddu Gwydnwch rhag Tanau Gwylt gyda'n Gilydd	17
Amddiffyn ein Cefn Gwlad a'n Gwlad	21
Cyngor ar greu Cynlluniau Llosgi i Ffermwyr a Thirfeddianwyr	22
Negeseuon Penodol am y Gwasanaeth Tân	25
Negeseuon Penodol am lechyd y Cyhoedd	26
Negeseuon Amgylcheddol	26



Cyflwyniad

Roedd tymor tanau gwyllt 2026 yn un o'r tymhorau mwyaf arwyddocaol y mae Cymru wedi'i weld.

Profodd Cymru ei haf poethaf ar gofnod, gan gynnwys y mis Gorffennaf sychaf erioed. Creodd yr amodau hyn amgylchedd lle gallai tanau gwyllt ledaenu'n gyflym a datblygu'n ddigwyddiadau hirfaith a chymhleth, gan effeithio ar gymunedau, busnesau, amaethyddiaeth a'r amgylchedd naturiol.

Yn ystod mis Gorffennaf ac Awst, ymatebodd Gwasanaethau Tân ac Achub ledled Cymru i nifer o ddigwyddiadau difrifol yn ymwneud â thanau gwyllt, gan gynnwys digwyddiadau ar Fynydd Conwy, ar Fynydd Llanwynno, yng Nghronfa Ddŵr Llangynidr ac yn Rhandir-mwyn. Bu i raddfa a hyd y digwyddiadau hyn roi pwysau sylweddol ar ymatebwyr brys, asiantaethau partner, cymunedau lleol, ffermwyr a thirfeddianwyr.

Dangosodd yr ymateb nerth cydweithio mewn partneriaeth ledled Cymru. Cydweithiodd diffoddwyr tân, tirfeddianwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, cynrychiolwyr ffermio, Llywodraeth Cymru a chymunedau lleol er mwyn ymateb i ddigwyddiadau, diogelu eiddo a bywoliaethau, a lleihau'r effaith ar gymunedau a'r amgylchedd.

Atgyfnerthodd digwyddiadau haf 2026 wers bwysig: ni all un sefydliad ar ei ben ei hun sicrhau gwydnwch yn wyneb tanau gwyllt. Mae angen dull cydlynol, hirdymor sy'n canolbwyntio ar atal, parodrwydd, addysg, rheoli'r tir a gweithio mewn partneriaeth.

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn bodoli er mwyn cefnogi'r uchelgais honno, gan ddod â sefydliadau o bob cwr o Gymru ynghyd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r risg a achosir gan danau gwyllt ac ymagwedd gydlynol at leihau ei effaith.





Ein Partneriaid

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Dyfed Powys, Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent, Heddlu Gogledd Cymru, Y Swyddfa Dywydd, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffermwyr Ifanc Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Eryri, Cadwch Gymru'n Daclus, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CrimeStoppers.





Ymgyrch Llosgi i Amddiffyn

Fel rhan o'i Siarter Tanau Gwylt, mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru wedi ymrwymo i ddarparu dull cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar bartneriaeth, o ran atal tanau gwylt a sicrhau gwydnwch yn eu herbyn ledled Cymru.

Mae'r ymgyrch #LlosgilAmddiffyn yn parhau i fod yn elfen bwysig o'r uchelgais honno.

Gan gydnabod bod llosgi dan reolaeth yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth reoli'r tir pan gaiff ei wneud yn ddiogel ac yn gyfrifol, mae'r ymgyrch yn annog ffermwyr, tirfeddianwyr a defnyddwyr tir comin i gydweithio'n agos gyda Gwasanaethau Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru, undebau ffermio a phartneriaid eraill i leihau'r risg o danau gwylt.

Yn 2026, bydd gan yr ymgyrch bwysigrwydd ychwanegol.

Tynnodd y tanau gwylt digynsail a brofwyd ledled Cymru'r haf hwn sylw at bwysigrwydd mesurau atal rhagweithiol, rheoli'r tir yn gyfrifol a gweithio mewn partneriaeth gref. Felly, nod yr ymgyrch yw nid yn unig hyrwyddo arferion llosgi diogel, ond hefyd gryfhau dealltwriaeth ehangach o'r risg a achosir gan danau gwylt a'r cyfrifoldeb sydd gan bawb i'w leihau.

Yn y pen draw, nod #LlosgilAmddiffyn yw cefnogi cymunedau mwy diogel, tirweddau mwy cadarn a dull cryfach o weithio mewn partneriaeth i atal tanau gwylt ledled Cymru.



Ein Dull o Gyfathrebu

Yn dilyn tymor tanau gwyllt 2026, bydd gweithgarwch cyfathrebu yn canolbwyntio ar gryfhau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwydnwch.

Bydd negeseuon cyfathrebu'r ymgyrch yn pwysleisio:

- Graddfa ac effaith tymor tanau gwyllt 2026.
- Pwysigrwydd atal a pharodrwydd.
- Rheoli'r tir yn gyfrifol.
- Llosgi dan reolaeth yn ddiogel a chyfrifol.
- Gweithio mewn partneriaeth a rhannu cyfrifoldeb.
- Diogelu cymunedau, bywoliaethau, bywyd gwyllt a'r amgylchedd.
- Dysgu o ddigwyddiadau tanau gwyllt ledled Cymru.
- Meithrin gwydnwch hirdymor yn wyneb y risg o danau gwyllt yn y dyfodol.

Bydd yr holl weithgarwch cyfathrebu yn cael ei gydlynw drwy Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru i sicrhau negeseuon cyson, rhannu'r hyn a ddysgwn ac ymagwedd Cymru'n un.

Ein Hymrwymiadau

Mae Tîm Cyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi creu tudalen ymgyrchoedd ar wefan y Gwasanaeth [#LosgiiAmddiffyn](#), ac yno cewch afael yn rhwydd ar yr holl ddeunyddiau a ddatblygwyd i gefnogi'r ymgyrch Llosgi i Amddiffyn, gan gynnwys negeseuon dwyieithog wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a graffeg i'w lawrlwytho ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Bydd Tîm Cyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn rhan o'r gwahanol grwpiau sy'n gysylltiedig â Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, a byddant yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r holl asiantaethau am ddatblygiadau



nodedig, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wneir i'r dull o gyfathrebu a defnyddio'r cyfryngau.

Gofynnir i bob asiantaeth anfon copïau o'u holl weithgareddau cyfathrebu rhagweithiol i Ddesg y Wasg Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (pressofficer@mawwfire.gov.uk) er mwyn iddynt gydlyn log o weithgareddau.

Gofynnwn hefyd i bob asiantaeth sicrhau eu bod yn hysbysu Cadeirydd Bwrdd Tanau Gwylt Cymru os cânt unrhyw gynnig i wneud cyfweiliad i'r wasg. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â Desg y Wasg Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru drwy e-bostio pressofficer@mawwfire.gov.uk.

Bydd cynigion i gyfathrebu ac ymddangos yn y cyfryngau lleol yn cael eu cydlyn gan y partneriaid sydd ar Fwrdd Tanau Gwylt Cymru, a hynny er mwyn sicrhau bod materion lleol yn cael sylw priodol ac yn cael eu hyrwyddo yn ôl yr angen, yn ogystal ag i sicrhau bod unrhyw negeseuon yn cyd-fynd ag amcanion, nodau a dulliau cyfathrebu ehangach y Bwrdd.

Anogir pob asiantaeth i rannu unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo a grëwyd i gefnogi gweithgareddau Bwrdd Tanau Gwylt Cymru, fel sydd wedi'i amlinellu yn y Siarter Tanau Gwylt. Unwaith eto, bydd y deunydd hwn yn cael ei rannu ar dudalen we yr ymgyrch a bydd yn cael ei gydlyn gan Dîm Cyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Ein Hamcanion

Bydd ein gweithgarwch cyfathrebu yn ceisio:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r risg gynyddol o danau gwylt sy'n wynebu Cymru.
- Cefnogi ymgysylltu â ffermwyr, tirfeddianwyr a defnyddwyr tir comin i hyrwyddo llosgi dan reolaeth sy'n ddiogel, yn gyfreithiol ac yn gyfrifol.





- Tynnu sylw at wersi a ddysgwyd gan dymor tanau gwyllt 2026.
- Dangos gwerth cydweithio mewn partneriaeth wrth atal tanau gwyllt ac ymateb iddynt.
- Annog ymddygiad cyfrifol ymhlith holl ddefnyddwyr cefn gwlad.
- Codi ymwybyddiaeth o'r effaith y mae tanau gwyllt yn ei chael ar gymunedau, gwasanaethau cyhoeddus, busnesau, amaethyddiaeth, bioamrywiaeth a seilwaith.
- Rhannu camau ymarferol y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd i leihau'r risg o danau gwyllt.
- Cefnogi dull hirdymor Cymru o sicrhau ein gwydnwch a'n parodrwydd ar gyfer tanau gwyllt.





Ein Cynulleidfaoedd

Prif Gynulleidfaoedd

- Ffermwyr
- Tirfeddianwyr
- Defnyddwyr tir comin
- Sefydliadau rheoli tir
- Cyrff cynrychioliadol amaethyddol

Cynulleidfaoedd Eilaidd

- Cymunedau gwledig
- Cerddwyr a defnyddwyr cefn gwlad
- Sefydliadau twristiaeth
- Grwpiau cymunedol
- Awdurdodau lleol

Budd-ddeiliaid Strategol

- Llywodraeth Cymru
- Aelodau'r Senedd
- Gwasanaethau brys
- Partneriaid sector cyhoeddus
- Sefydliadau amgylcheddol
- Undebau ffermio
- Parciau Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru





Dylanwadu ar Gynulleidfaoedd

- Cyfryngau
- Arweinwyr cymunedol
- Aelodau etholedig
- Cynulleidfaoedd cyfryngau cymdeithasol





Ein Cynllun

- Datganiadau ar y Cyd i'r Wasg – Un i'w rhannu ar y dechrau ac yna yn ymatebol yn ôl yr angen. Er mwyn sicrhau cysondeb o ran y neges a'r ystadegau a rennir, danfonwch gopi o'r holl ddatganiadau a wneir i'r wasg i pressofficer@mawwfire.gov.uk er mwyn iddynt eu hychwanegu at dudalen we yr ymgyrch a'u rhannu gyda'r grŵp er gwybodaeth.
- Astudiaethau Achos – Os bydd sefydliadau unigol yn gweld cyfle i dynnu sylw at astudiaeth achos benodol yn eu hardal, ewch ati i wneud hynny os gwelwch yn dda. Cofiwch ei anfon at ddesg y wasg Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd, er mwyn iddynt ei rannu ar draws Grŵp Tanau Gwyllt Cymru.
- Hysbysebion radio – Mae'r grŵp yn annog y defnydd o hysbysebion radio i hyrwyddo gwaith Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru a'i negeseuon allweddol. Oherwydd natur darllediadau radio, gellir trefnu hysbysebion radio ar lefel leol gan ddefnyddio'r negeseuon sydd yn y ddogfen hon.
- Negeseuon allweddol / negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol – Mae casgliad o negeseuon awdurdodedig/wedi'u cyfieithu i'w cael ar dudalen yr ymgyrch sydd ar wefan Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru [#LosgiiAmdiffyn](https://twitter.com/LosgiiAmdiffyn) yn ogystal â graffeg i'w lawrlwytho ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.
- Datblygu pecyn o gynnwys sy'n archwilio'r gwersi a ddysgwyd o danau gwyllt mawr ac yn tynnu sylw at sut y cydweithiodd sefydliadau i ddiogelu cymunedau a thirweddau.
- Cynnwys rheolaidd sy'n arddangos enghreifftiau o gydweithio rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub, ffermwyr, tirfeddianwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill.
- Cynnwys sy'n dangos sut mae rheoli'r tir yn gyfrifol, parodrwydd ac atal yn cyfrannu at leihau'r risg o danau gwyllt ledled Cymru.





- Darparu deunyddiau briffio ar gyfer aelodau etholedig, sefydliadau partner a budd-ddeiliaid cymunedol i sicrhau negeseuon cyson.





Ein Negeseuon Allweddol

- Dangosodd haf 2026 yr her gynyddol a achosir gan danau gwyllt ledled Cymru.
- Mae tanau gwyllt yn effeithio ar gymunedau, busnesau, amaethyddiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, bywyd gwyllt a'r amgylchedd.
- Mae atal tanau gwyllt yn gyfrifoldeb ar y cyd.
- Mae gwydnwch yn wyneb tanau gwyllt yn gofyn am weithio mewn partneriaeth rhwng tîrfeddianwyr, cymunedau, gwasanaethau brys, cyrff cyhoeddus a'r llywodraeth.
- Mae llosgi dan reolaeth yn parhau i fod yn offeryn pwysig ar gyfer rheoli'r tir pan gaiff ei wneud yn gyfrifol ac yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau.
- Mae ffermwyr a thîrfeddianwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth leihau'r risg o danau gwyllt a gwella gwydnwch tirwedd.
- Bydd y gwersi a ddysgwyd gan dymor tanau gwyllt 2026 yn helpu i siapiau trefniadau atal a pharatoi ar gyfer tanau gwyllt yn y dyfodol ledled Cymru.
- Mae pob penderfyniad cyfrifol a wneir yn ystod y tymor llosgi yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau gwyllt yn y dyfodol.
- Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn dod â sefydliadau o bob cwr o Gymru ynghyd i gydlyn gweithgarwch, rhannu dysgu a gwella gwydnwch.
- Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn helpu i ddiogelu cymunedau, bywoliaethau, tirweddau a bywyd gwyllt ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.





Ein Deunyddiau

Datganiad i'r Wasg ar gyfer y Lansiad #LlosgilAmddiffyn (Cymraeg)

Yn dilyn haf na fydd Cymru'n ei anghofio, anogir tîrfeddianwyr i Losgi i Amddiffyn

Mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru yn galw ar ffermwyr, tîrfeddianwyr a chymunedau gwledig ledled Cymru i chwarae eu rhan wrth leihau'r risg o danau gwylt yn y dyfodol, wrth iddo lansio ei ymgyrch #LlosgilAmddiffyn flynyddol.

Daw'r lansiad yn dilyn un o'r tymhorau tanau gwylt mwyaf y mae Cymru wedi'i weld. Haf 2026 oedd yr haf poethaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru, ac roedd yn cynnwys y mis Gorffennaf sychaf a gofnodwyd erioed, gan greu amodau delfrydol i danau gwylt ledaenu'n gyflym ar draws cefn gwlad. Yn ystod mis Gorffennaf ac Awst, cyhoeddodd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru bedwar o danau gwylt mawr ar Fynydd Conwy a Mynydd Llanwynno, ac yng Nghronfa Ddŵr Llangynidr a Rhandir-mwyn.

Mae graddfa, hyd a dwyster y digwyddiadau hyn yn rhoi pwysau digynsail nid yn unig ar y gwasanaethau brys, ond hefyd ar ein hasiantaethau partner, cymunedau lleol, ffermwyr a thîrfeddianwyr a oedd ar reng flaen yr ymateb. Derbyniodd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru gymorth cydfuddiannol gan ein cymdogion yng Ngwasanaethau Tân ac Achub Lloegr, ac yn Ne Cymru, anfonwyd cymorth milwrol i helpu i gefnogi gweithrediadau. Profodd cymunedau ledled Cymru aflonyddwch ac ansicrwydd, effeithiwyd ar ardaloedd helaeth o dir ffermwyr a thîrfeddianwyr, cafodd cynefinoedd gwerthfawr eu difrodi ac, mewn rhai achosion, profodd teuluoedd golled eiddo dinistriol.

Gan gydnabod bod llosgi dan reolaeth yn parhau i fod yn ffordd bwysig o reoli tir pan gaiff ei wneud yn gyfrifol, mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru yn annog pawb sy'n bwriadu llosgi y tymor hwn i gydweithio'n agos â'u Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, undebau ffermio a phartneriaid eraill.

Gall ffermwyr a thîrfeddianwyr losgi grug, glaswellt, rhedyn ac eithin rhwng 1 Hydref a 15 Mawrth bob blwyddyn, gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn tan 31 Mawrth yn yr ucheldiroedd. Fodd bynnag, dylai unrhyw un sy'n bwriadu llosgi dan reolaeth sicrhau bod cynllun llosgi ar waith a bod yr holl ragofalon priodol wedi'u hystyried.





Fel rhan o'r ymgyrch #LlosgilAmddiffyn, mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru yn atgoffa tiffeddianwyr o gyngor diogelwch syml ond pwysig:

- Rhowch wybod i'ch Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol cyn cynnal llosgiad dan reolaeth.
- Sicrhewch fod gennych ddigon o bobl ac offer ar gael i reoli'r tân.
- Gwiriwch amodau'r tywydd a chyfeiriad y gwynt cyn cynnal unrhyw dân.
- Ystyriwch eiddo, ffyrdd, da byw, cynefinoedd a bywyd gwylt cyfagos.
- Os bydd tân yn mynd y tu hwnt i reolaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar unwaith a rhowch wybodaeth fanwl a chywir am y lleoliad.
- Peidiwch byth â gadael tân heb i rywun fod yn ei wyllo.
- Sicrhewch fod unrhyw dân wedi'i ddiffodd yn llwyr cyn i chi adael y safle, ac ewch yn ôl i'r ardal i wneud yn siŵr nad oes arwyddion ei fod wedi ailgynnal.

Dywedodd Andy Wright, Cadeirydd Bwrdd Tanau Gwylt Cymru ac Uwch Gynghorydd Arbenigol - Iechyd Planhigion a Throsglwyddo Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru:

"Mae'r haf hwn wedi newid y drafodaeth ynghylch tanau gwylt yng Nghymru.

"Gwelodd pobl â'u llygaid eu hunain faint o adnoddau sydd eu hangen i ddiffodd tanau gwylt mawr, a'r effaith y gallant ei chael ar gymunedau, busnesau, tir fferm a'r amgylchedd.

"Un o'r gwersi amlycaf o'r misoedd diwethaf yw na ellir sicrhau gwydnwch yn wyneb tanau gwylt drwy ymdrech y gwasanaethau brys yn unig. "Mae'n dibynnu ar bartneriaethau cryf rhwng rheolwyr tir, gwasanaethau cyhoeddus, ffermwyr, cymunedau lleol a'r llywodraeth.

"Sefydlwyd Bwrdd Tanau Gwylt Cymru i ddod â'r partneriaid hynny at ei gilydd, gan sicrhau ein bod yn rhannu arbenigedd, yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau mawr ac yn cymryd camau ymarferol i leihau'r risg.

"Mae fy neges i ffermwyr a thirfeddianwyr yn syml: cymerwch yr amser i gynllunio, deall y risgiau ac ymgysylltu â'ch partneriaid lleol cyn cynnal unrhyw losgi dan reolaeth.

"Rydych chi'n adnabod eich tir yn well nag unrhyw un. Drwy gydweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr ffermio,





gallwch chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu bywoliaethau, gwella gwydnwch a helpu i atal y math o danau gwylt ar raddfa fawr a effeithiodd ar gymunedau ledled Cymru yr haf hwn.

“Mae atal tanau gwylt yn dechrau ymhell cyn cynnau tân. Mae pob penderfyniad cyfrifol a wneir y tymor llosgi hwn yn gam tuag at ddiogelu ein cymunedau, ein cefn gwlad a chenedlaethau'r dyfodol.”

Mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru yn dod â Gwasanaethau Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddluoedd, undebau ffermio, rheolwyr tir a sefydliadau partner eraill ynghyd i ddeall ac i leihau'r risg o danau gwylt ledled Cymru yn well.

Drwy gydweithio a rhannu gwybodaeth, mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru yn gobeithio gwella dealltwriaeth o'r camau syml a all leihau tebygolrwydd ac effaith tanau gwylt, gan helpu i ddiogelu cymunedau, cefn gwlad ac amgylchedd naturiol Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch #LlosgiAmddiffyn, gan gynnwys canllawiau diogelwch ac adnoddau y gallwch eu lawrlwytho, ewch i wefan eich Gwasanaeth Tân ac Achub lleol.

Nodiadau i Olygyddion

Mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru yn bartneriaeth aml-asiantaethol sydd wedi ymrwymo i wella'r ddealltwriaeth a'r rheolaeth o'r risg o danau gwylt ledled Cymru.

Mae'r Bwrdd yn gweithio ar y cyd â chymunedau lleol, rheolwyr tir, gwasanaethau brys, cyrff cyhoeddus a sefydliadau partner i ddatblygu atebion ymarferol sy'n lleihau'r risg o danau gwylt, gwella gwydnwch ac yn diogelu pobl, amgylchedd ac economi Cymru.

Cyflawnir gwaith y Bwrdd drwy Siarter Tanau Gwylt Cymru, gan adeiladu ar fwy na degawd o gydweithio mewn partneriaeth a chydabod yr heriau cynyddol a achosir gan newid hinsawdd, tywydd eithafol a phatrymau defnydd tir sy'n newid.





Negeseuon cyfryngau cymdeithasol #LlosgilAmddiffyn

Cynyddu Gwydnwch rhag Tanau Gwyllt gyda'n Gilydd

ENW'R DDELWEDD	TESTUN CYMRAEG	TESTUN SAESNEG
Building Wildfire Resilience Together_1	Yr haf hwn, gwelodd cymunedau ledled Cymru rai o'r tanau gwyllt mwyaf eang a chymhleth sydd wedi'u gweld yn y blynyddoedd diwethaf. Mae tanau gwyllt yn effeithio ar lawer mwy na'r amgylchedd. Mae'n effeithio ar gymunedau, bywoliaethau, busnesau, bywyd gwyllt a gwasanaethau cyhoeddus. Drwy gydweithio, gallwn helpu i leihau'r risg o danau gwyllt yn y dyfodol. #LlosgilAmddiffyn	This summer, communities across Wales witnessed some of the largest and most complex wildfire incidents in recent years. Wildfire affects far more than the environment. It impacts communities, livelihoods, businesses, wildlife and public services. By working together, we can help reduce future wildfire risk. #BurnToProtect
Building Wildfire Resilience Together_2	Dangosodd tymor tanau gwyllt 2026 bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth. Gweithiodd diffoddwyr tân, ffermwyr, tiffeddianwyr, cymunedau lleol ac asiantaethau partner ochr yn ochr i ddiogelu cartrefi, busnesau a chefn gwlad. Mae meithrin gwydnwch yn dechrau cyn i'r tân nesaf gael ei gynnu. #LlosgilAmddiffyn	The 2026 wildfire season demonstrated the importance of partnership working. Firefighters, farmers, landowners, local communities and partner agencies worked side-by-side to protect homes, businesses and the countryside. Building resilience starts before the next wildfire begins. #BurnToProtect





Building Wildfire Resilience Together_3	Mae pob penderfyniad cyfrifol a wneir y tymor llosgi hwn yn helpu i leihau'r tebygolrwydd o danau gwyllt yn y dyfodol. Cynlluniwch ymlaen llaw. Sicrhewch eich bod yn deall y risgiau. Gweithiwch gyda'ch partneriaid lleol. Gyda'n gilydd, gallwn helpu i amddiffyn Cymru. #LlosgilAmddiffyn	Every responsible decision taken this burn season helps reduce the likelihood of future wildfires. Plan ahead. Understand the risks. Work with your local partners. Together we can help protect Wales. #BurnToProtect
Building Wildfire Resilience Together_4	Dangosodd yr haf hwn na all y gwasanaethau brys sicrhau gwydnwch yn wyneb tanau gwyllt ar eu pennau eu hunain. Mae angen i gymunedau, tîrfeddianwyr, cyrff cyhoeddus a'r llywodraeth gydweithio i leihau risg a gwella parodrwydd. #LlosgilAmddiffyn	This summer showed that wildfire resilience cannot be delivered by emergency services alone. It requires communities, landowners, public bodies and government working together to reduce risk and improve preparedness. #BurnToProtect





Building Wildfire Resilience Together_5	Gall tanau gwyllt effeithio ar gymunedau cyfan, niweidio bywoliaethau, dinistrio cynefinoedd a rhoi pwysau sylweddol ar y gwasanaethau brys. Atal yw'r arf cryfaf sydd gennym yn dal i fod. #LlosgilAmddiffyn	Wildfires can affect entire communities, damage livelihoods, destroy habitats and place significant pressure on emergency services. Prevention remains our strongest tool. #BurnToProtect
Building Wildfire Resilience Together_6	Mae ffermwyr a thirfeddianwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth leihau'r risg o danau gwyllt ledled Cymru. Mae rheoli'r tir yn ddiogel ac yn gyfrifol yn helpu i amddiffyn cymunedau, tirweddau a bywoliaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. #LlosgilAmddiffyn	Farmers and landowners play a vital role in reducing wildfire risk across Wales. Safe and responsible land management helps protect communities, landscapes and livelihoods for future generations. #BurnToProtect





Building Wildfire Resilience Together_7	Bydd y gwersi a ddysgwyd gan dymor tanau gwyllt 2026 yn helpu i lunio ymagwedd Cymru yn y dyfodol at atal tanau gwyllt, paratoi ar eu cyfer a gwydnwch i'w gwrthsefyll. Gyda'n gilydd, gallwn adeiladu Cymru fwy diogel a chadarn. #LlosgilAmddiffyn	The lessons learned from the 2026 wildfire season will help shape Wales' future approach to wildfire prevention, preparedness and resilience. Together we can build a safer and more resilient Wales. #BurnToProtect
Building Wildfire Resilience Together_8	Nid cyfrifoldeb un sefydliad yw diogelu Cymru rhag tanau gwyllt. Mae angen i ddiffoddwyr tân, ffermwyr, tîrfeddianwyr, cymunedau lleol, cyrff cyhoeddus a'r llywodraeth gydweithio. Dyna pam fod partneriaeth yn bwysig. #LlosgilAmddiffyn	Protecting Wales from wildfire isn't the responsibility of one organisation. It takes firefighters, farmers, landowners, local communities, public bodies and government working together. That's why partnership matters. #BurnToProtect





Amddiffyn ein Cefn Gwlad a'n Gwlad

ENW'R DDELWED	TESTUN CYMRAEG	TESTUN SAESNEG
Protecting the Countryside and our Country_1	Mae tanau anghyfrifol / heb eu rheoli yn dinistrio miloedd o hectarau o gefn gwlad, tir agored a chynefinoedd bywyd gwylt bob blwyddyn. Mae llawer o'r tanau hyn yn cael eu hachosi gan ein hymddygiad ni, ac mae modd eu hatal. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân Lleol a gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i losgi'n gyfrifol. #LlosgilAmddiffyn	Every year irresponsible / uncontrolled fire is attributable to the destruction of thousands of hectares of countryside, open space, and wildlife habitats. Many of these fires are preventable and caused by our behaviour. Contact your local Fire Service and let's work together to burn responsibly. #BurnToProtect
Protecting the Countryside and our Country_2	Mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru yn eich annog i ddefnyddio strategaethau effeithiol i atal tanau gwylt wrth losgi eich tir. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgilAmddiffyn	The Wales Wildfire Board are urging you to implement effective wildfire prevention strategies when burning your land. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect
Protecting the Countryside and our Country_3	Rydym yn gwybod bod llosgi eich tir yn hanfodol er mwyn diogelu eich asedau a sicrhau fod y tir yn dal i gynhyrchu. Parchwch eich cefn gwlad a gwnewch eich rhan i ddiogelu ein hamgylchedd a chadw ein cymunedau'n ddiogel trwy losgi'n gyfrifol. #LlosgilAmddiffyn	We know that burning your land is crucial in protecting your assets and maintaining its productivity. Respect your countryside and play your part in safeguarding our environment and keeping our communities safe by burning responsibly. #BurnToProtect





Cyngor ar greu Cynlluniau Llosgi i Ffermwyr a Thirfeddianwyr

ENW'R DDELWED	TESTUN CYMRAEG	TESTUN SAESNEG
Burn Plan_1	Ydych chi'n bwriadu cynnau tân dan reolaeth ar eich tir? Cofiwch fod y cyfnod llosgi rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth yn yr ucheldiroedd a rhwng 1 Tachwedd a 15 Mawrth mewn ardaloedd eraill. Mae'n anghyfreithlon llosgi yn ystod yr oriau tywyll. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân Lleol a gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i losgi'n gyfrifol. #LlosgilAmddiffyn	Planning a controlled burn on your land? Remember the burn period is between 1 October and 31 March in upland areas and 1 November - 15 March in other areas. Burning in the hours of darkness is illegal. Contact your local Fire Service and let's work together to burn responsibly. #BurnToProtect
Burn Plan_2	Ydych chi'n bwriadu cynnau tân dan reolaeth? Ydych chi wedi rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Tân? Cysylltwch â'n Hystafell Reoli ar 01268 909408 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgilAmddiffyn	Planning a controlled burn? Have you informed the Fire Service? Contact our Control Room on 01268 909408 to keep them. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect
Burn Plan_3	Bydd unrhyw rai sy'n cael eu canfod yn cynnau tân y tu allan i'r Cyfnod Llosgi (mis Hydref i fis Mawrth) yn cael eu herlyn a gallai effeithio ar eich taliadau fferm sengl gan Lywodraeth Cymru. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgilAmddiffyn	Anyone found burning outside of the Burn Period (Oct to March) will be prosecuted and it could affect your single farm payments from Welsh Gov. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect
Burn Plan_4	Mae angen Cynllun Llosgi arnoch er mwyn cynnau tân dan	To conduct a controlled burn, you need to have a Burn Plan –





	reolaeth – gallwch ddod o hyd i Gynllun Llosgi ar wefan Llywodraeth Cymru Cover welsh plan 1b.pdf, page 2 @ Preflight . Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiAmddiffyn	you can find a Burn Plan on the Welsh Gov website (Cover english plan 1b.pdf, page 1 @ Preflight). Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect
Burn Plan_5	Ni chaniateir tanau rhwng machlud a chodiad haul, hyd yn oed yn ystod y Cyfnod Llosgi (mis Hydref i fis Mawrth). Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiAmddiffyn	Even inside the Burn Period (October to March) you cannot burn between Sunset and Sunrise. Help stop deliberate fires by burning responsibly. #BurnToProtect
Burn Plan_6	Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynllunio eich tân a bod gennych ddigon o adnoddau i sicrhau y gellir ei reoli'n effeithiol a'i ddiffodd os oes angen. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiAmddiffyn	Make sure you plan your burn and have enough resources available to ensure it can be managed effectively and extinguished if required. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect
Burn Plan_7	Ydych chi'n Bwriadu Cynnau Tân dan Reolaeth? Rhowch wybod i'ch cymdogion a gwnewch yn siŵr bod da byw mewn lle diogel i ffwrdd oddi wrth lwybr y tân. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiAmddiffyn	Planning a Controlled Burn? Inform your neighbours and ensure that livestock is in a safe place away from the fire path. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect





Burn Plan_8	Ydych chi'n bwriadu #CynnauTânDanReolaeth? Mae tanau'n teithio'n gyflymach i fyny'r allt ac yn llosgi'n fwy ffyrnig nag y maent tuag at i lawr. Cofiwch - gall tân ledaenu'n gyflymach nag y gallwch chi redeg. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgilAmddiffyn	Planning a #ControlledBurn? Fire will travel uphill quicker and will burn more intensely than it does downhill. Remember - it can spread quicker than you can run. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect
Burn Plan_9	Ydych chi'n Bwriadu Cynnau Tân dan Reolaeth? Ystyriwch greu strimyn heb dân i atal y tân rhag lledaenu. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgilAmddiffyn	Planning a Controlled Burn? Consider cutting a 'fire break' to prevent fire spread. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect
Burn Plan_10	Wrth gynnu tân dan reolaeth - AR ÔL EI GYNNAU, PEIDIWCH Â'I ADAEL! Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich tân wedi diffodd yn llwyr cyn gadael y lleoliad! Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgilAmddiffyn	When it comes to a controlled burn - IF YOU LIGHT IT DON'T LEAVE IT! It is your responsibility to ensure your fire is completely extinguished before leaving the area! Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect
Burn Plan_11	Ydych chi'n Bwriadu Cynnau Tân dan Reolaeth? Dim ond ardal fechan, hawdd i'w rheoli, y dylech ei llosgi ar y tro. Mewn amodau llosgi hawdd, argymhellir y gall 1 person reoli llinell dân 5 metr yn effeithlon. Mae ymddygiad tanau glaswellt yn amhosibl i'w ragweld a gallant ddatblygu y tu hwnt i reolaeth o fewn munudau. #LlosgilAmddiffyn	Planning a Controlled Burn? Only burn a small manageable area at a time. In easy burn conditions, it is recommended that 1 person can efficiently manage a 5-meter fire line. Grass fires are extremely unpredictable and can spiral out of control within minutes. #BurnToProtect





Burn Plan_12	COFIWCH BOB AMSER roi gwybod i'ch Gwasanaeth Tân ac Achub lleol cyn cynnau tân dan reolaeth ac ar ôl i'r gwaith llosgi orffen. Cysylltwch â ni ar {control room number} #LlosgilAmddiffyn	ALWAYS inform your local Fire and Rescue Service before a Controlled Burn and after a burn is complete. Contact us on {control room number} #BurnToProtect
Burn Plan_13	Ydych chi'n bwriadu cynnau tân dan reolaeth? Am gyngor ac arweiniad ewch i code cover w 1c.pdf, page 1 @ Preflight am fwy o wybodaeth. #LlosgilAmddiffyn	Planning on carrying out a controlled burn? For advice and guidance visit Cover-english-code 1b.pdf, page 2 @ Preflight for more information. #BurnToProtect

Negeseuon Penodol am y Gwasanaeth Tân

ENW'R DDELWED	TESTUN CYMRAEG	TESTUN SAESNEG
Fire Service_1	Bob tro y byddwn yn ymateb i dân bwriadol sydd wedi mynd allan o reolaeth, rydych chi'n peryglu ein diffoddwyr tân yn ddiangen. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgilAmddiffyn	Every time we attend a deliberately set fire that's got out of control, you put our firefighters needlessly at risk. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect
Fire Service_2	Oeddech chi'n gwybod bod cost o filoedd o bunnoedd i'r trethdalwr bob tro y byddwn ni'n ymateb i dân glaswellt y collwyd rheolaeth arno? Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgilAmddiffyn	Did you know it costs you the taxpayer thousands of pounds every time we attend an out-of-control grass fire? Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect





Negeseuon Penodol am lechyd y Cyhoedd

ENW'R DDELWED	TESTUN CYMRAEG	TESTUN SAESNEG
Public Health_1	Mae mwg o dân glaswellt yn gallu niweidio llwybrau anadlu, y croen a'r llygaid, gan achosi peswch, gwichian, diffyg anadl a phoen yn y frest. #LlosgilAmddiffyn	Grass fire smoke can irritate airways, the skin and eyes, causing coughing, wheezing, breathlessness and chest pain. #BurnToProtect
Public Health_2	Gall mwg o dân glaswellt waethgu cyflyrau sy'n bodoli eisoes, fel asthma. #LlosgilAmddiffyn	Grass fire smoke can worsen existing conditions such as asthma. #BurnToProtect
Public Health_3	Ydych chi'n poeni am symptomau y mae mwg o dân glaswellt wedi'u hachosi? Cysylltwch â'ch meddyg teulu neu ewch i www.nhsdirect.wales.nhs.uk #LlosgilAmddiffyn	Concerned about symptoms caused by grass fire smoke? Contact your GP or visit www.nhsdirect.wales.nhs.uk #BurnToProtect

Negeseuon Amgylcheddol

ENW'R DDELWED	TESTUN CYMRAEG	TESTUN SAESNEG
Environmental Message_1	Mae llosgi cyfrifol nid yn unig yn gwella tir pori da byw ond hefyd yn creu gwell bioamrywiaeth a chynfinoedd mwy amrywiol. #LlosgilAmddiffyn	Responsible burning not only improves poor livestock grazing but also creates a richer variety of Biodiversity and habitat. #BurnToProtect
Environmental Message_2	Trwy reoli tanau bach yn briodol, gallwn atal tanau mawr, dwfn yn ddiweddarach yn y flwyddyn sy'n achosi mwy o ddifrod i strwythur	By managing small fires correctly, we can prevent large deep-seated fires later in the year that cause more damage





	y pridd ac sy'n rhyddhau tocsinau wedi'u storio i'r amgylchedd. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgilAmddiffyn	to the soil structure and release stored toxins into the environment. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect
--	--	---

Yn Bresenol yn y Digwyddiad

IMAGE NAME	WELSH TEXT	ENGLISH TEXT
Incident_1	Rydym wedi ymateb i'r tân glaswellt yn {ENTER LOCATION} ac yn ei fonitro. Penderfynwyd ei adael i'w ddiffodd ei hun yn ddiogel. Diolch i chi am eich galwadau	We are in attendance and monitoring the grass fire at {ENTER LOCATION}. A decision has been taken to let it safely burn out. Thank you for your calls.
Incident_2	Rydym yn ymateb i dân glaswellt yn {ENTER LOCATION}. Gallwn eich sicrhau bod y tân o dan reolaeth a bod Diffoddwyr Tân yn ei fonitro'n agos yn y fan a'r lle	We are in attendance at a grass fire in {ENTER LOCATION}. Rest assured the fire is under control and is being closely monitored by Firefighters at scene.
Incident_3	Diolch i chi am eich galwadau mewn perthynas â tân glaswellt yn {ENTER LOCATION}. Rydym wedi ymateb iddo, ac mae'r tân yn cael ei fonitro'n agos	Thank you for your calls in relation to a grass fire at {ENTER LOCATION}. We have attended and the Fire is being closely monitored.
Incident_4	Rydym yn cael nifer mawr o alwadau ynghylch tân glaswellt yn {ENTER LOCATION}. Diolch i chi am eich pryderon. Mae Diffoddwyr Tân yn bresennol ac yn monitro'r sefyllfa	We are experiencing a high volume of calls relating to a grass fire at {ENTER LOCATION}. Thank you for your concerns. Firefighters are in attendance and monitoring the incident.





Negeseuon diolch

IMAGE NAME	WELSH TEXT	ENGLISH TEXT
Thank you_1	DIOLCH I CHI – i bob aelod o'r cyhoedd sydd wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu a Crimestoppers gyda gwybodaeth am y rhai hynny sy'n gyfrifol am gynnu tanau anghyfreithlon yn eu cymuned. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i'n cynorthwyo i leihau effaith y tanau hyn a'r gost ddiangen y maent yn ei hachosi i'n gwasanaethau brys. Daliwch ati i ffonio a negeseua ac anfon negeseuon e-bost!	THANK YOU - to all members of the public who have contacted the Fire and Rescue Service, the Police and Crimestoppers with information on those responsible for setting illegal fires in their community. This information is vital in assisting us to reduce the effect of these fires and the unnecessary drain these have on our emergency services. Keep the calls, emails and messages coming in!
Thank you_2	DIOLCH I CHI – i bawb sydd wedi cysylltu â ni, yr Heddlu a Crimestoppers gyda gwybodaeth am y rhai hynny sy'n gyfrifol am gynnu tanau anghyfreithlon yn eu cymuned.	THANK YOU – to everyone that has contacted us, the Police and Crimestoppers with information on those responsible for setting illegal fires in their community.

